# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 09-06

### Dyddiad y cyfarfod: 29 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 9:00 – 11:40
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadair) | Delyn |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan (Prif Weinidog) | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Phillip Bird | Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisïau'r UE |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Reijo Kemppinen | Pennaeth Cynrychiolaeth yn y DU, Y Comisiwn Ewropeaidd |
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa’r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Janet Davies AC a Rose D’Sa.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai’r Cadeirydd dderbyn gwahoddiad oddi wrth Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru i fod ar fwrdd eu hymddiriedolwyr.

1.3 Mae cofnod gair am air o’r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi**
**Papur: EUR(2) 08-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 25 Hydref**
**Papur: EUR(2) 09-06 – Camau i’w cymryd**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 25 Hydref yn gywir.

2.2 Rhestr Camau i’w Cymryd; ni chafwyd sylwadau.

**Eitem 3: Reijo Kemppinen**

3.1 Gwrandawodd y Pwyllgor ar y newyddion diweddaraf mewn adroddiad llafar gan Reijo Kemppinen, Pennaeth Cynrychiolaeth yn y DU, Y Comisiwn Ewropeaidd,

**Pwynt gweithredu:**

- Cytunodd Reijo Kemppinen i ddarparu i’r Pwyllgor awgrymiadau ar sut i wella cyfathrebu’r manylion am brosiectau yng Nghymru sy’n cael eu hariannu gan yr UE.

**Eitem 4: Adroddiad y Prif Weinidog**

**Papur: EUR(2) 09-06 (p1)**

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Ymgymerodd Y Prif Weinidog â'r gwaith o ddarparu fersiwn derfynol o Ddatganiad Caerdydd a fabwysiadwyd gan seithfed Gynhadledd Llywyddion y Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfu(REGLEG)ac mae'r fersiwn ddrafft wedi'i chynnwys yn Atodiad D i adroddiad y Prif Weinidog
- Cytunodd y Pwyllgor y byddent yn cynnwys y newyddion diweddaraf am y cynnydd a wnaed ynghylch Y Rhaglen Weithredu ar gyfer Cyllido Cydgyfeiriant yr UE 2007-2013 ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Ionawr2007.
- Cytunodd y Prif Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am gyfarfod y Cydgyngor Gweinidogion (Ewrop), a gynhaliwyd 27 Tachwedd, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, 24 Ionawr 2007.
- Cytunodd y Prif Weinidog i roi i'r clerc y rhestr ddiweddaraf o Is -genhadon Anrhydeddus a achredwyd yng Nghymru.

### Eitem 5: Y newyddion diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

5.1 Clywodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Rosemary Butler AC, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau.

### Eitem 6: Eluned Morgan ASE

6.1 Clywodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Eluned Morgan ASE am bolisi ynni'r Undeb Ewropeaidd.

### Eitem 7: Jill Evans ASE

7.1 Clywodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Jill Evans ASE am ddatblygiad yr Undeb Ewropeaidd i'r dyfodol, yn enwedig ym maes cynnwys y dinasyddion.

**Pwynt gweithredu:**

- Bydd y Prif Weinidog yn darparu nodyn ar y cynnydd a wnaed wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn sefydliadau Ewropeaidd.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau